**Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg**

***Welsh Language Advisory Panel***

26 Ionawr 2024 am 2yp
Cyfarfod Aml-Leoliad

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru (Cadeirydd) |
| Cyng. Andrew Davies | AD | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Cyng. Peter Hughes - Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SU | Annibynnol |
| **Swyddogion** | | |
| Gwyneth Ayres | GA | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi Graddedig |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| **1.** | Croeso ac Ymddiheuriadau<br><br>Croesawyd Aeron Rees (Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr) a Kelly Morris (Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg) i'r cyfarfod i wneud cyflwyniad, yn unol â chais yr Aelodau.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cyng. Tina Higgins a Cyng. Kevin Madge. | |
| **2.** | Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br><br>Cynigodd Cynghorydd Peter Hughes - Griffiths fod y cofnodion yn rhai cywir ac eiliodd Cynghorydd Carys Jones hyn. | |
| **3.** | Cyflwyniad – Y Gymraeg mewn Addysg<br><br>Prif ffocws y cyflwyniad oedd darparu diweddariad i'r aelodau ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma a'r gwaith pellach sydd am gael ei wneud. Yn ogystal ag edrych ar gategoreiddio Ysgolion yn ieithyddol a materion Staffio a Chyllid.<br><br>Trefnir y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu o dan saith prif nod neu ddeilliant. Drwy'r cyflwyniad manylwyd ar y deilliannau yma ac isod gwelir rhai o'r prif bwyntiau: | |

**Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

I geisio cyflawni'r deilliant hwn mae'r Adran Addysg wedi penodi swyddog y Gymraeg Dechrau'n Deg. Cynhelir cyfarfodydd cyson i gynllunio ar gyfer defnydd iaith gyda golwg at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi safonau ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen.

Ar hyn o bryd mae Cynllun Law yn Llaw Cyfnod Sylfaen yn cael ei rhedeg, lle mae 12 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ynghlwm. Mae 58 o staff o'r ysgolion yma yn derbyn hyfforddiant a chyngor ymarferol ar lawr y dosbarth. Cynhelir sesiynau dysgu iaith y dosbarth ar fore Llun ac yna byddant yn gweithredu yn y dosbarth.

Recordiwyd cyfres o glipiau yn Ysgolion Hanner Ffordd, Penygaer, Llandeilo a Phorth Tywyn er mwyn dangos ffyrdd o gyflwyno'r Gymraeg ar draws meysydd dysgu.

**Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.**

Ar hyn o bryd mae cynllun Braich ym Mraich CA2 yn cael ei beilota. Dilyniant yw'r cynllun ar gyfer athrawon a chynorthwyr dosbarth i sicrhau dilyniant ieithyddol. Fel rhan o'r cynllun maent wedi creu clipiau ffilm i annog defnydd o'r Gymraeg ar draws y meysydd. Yn ogystal â chefnogi disgyblion blwyddyn 6 sydd angen cefnogaeth wrth barhau yn addysg Cyfrwng Cymraeg Uwchradd.

**Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae cynllun mewn lle ar gyfer Canolfannau Iaith i sicrhau cysondeb a dilyniant gan gynnwys cynlluniau gwersi ac amserlen themâu ar draws y Canolfannau. Bellach mae gan y Cyngor tair canolfan dysgu gyda chynnydd mewn prysurdeb ers Covid. Y bwriad hirdymor yw sefydlu un arall yn ardal Llanelli.

Canolbwyntir hefyd ar gynyddu'r arlwy o addysg Gymraeg mewn ysgolion Uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae Ysgol Bryngwyn a Glan-y-môr yn Llanelli yn gwneud gwelliant da ar hyn o bryd.

**Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau gwahanol yn yr ysgol.**

Cynhelir gwersi Gloywi ar gyfer grwpiau targed gyda niferoedd yn amrywio yn ôl y galw. Pwysleisiwyd hefyd fod angen y gefnogaeth ar y rhieni i annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg ac felly comisiynwyd ffilm i gynorthwyo rhieni o ran y gwaith o fewn y canolfannau iaith.


**Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Cydweithir gyda ThADG i sicrhau bod ein disgyblion ag anghenion yn cael yr un cyfleoedd o ran Dysgu Cymraeg. Caiff hyn ei wneud drwy greu cyfres o lyfrau tair - ieithol - Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddo o'r enw Derwyn a'r Ddraig

**Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysg Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.**

Yn flynyddol maent yn gwneud y defnydd o Awdit iaith ac o ddealltwriaeth TADG o'r ysgolion hynny sydd yn awyddus i symud yn ieithyddol. Mae nifer o ysgolion wedi gofyn am gymorth a chefnogaeth gan y cyrff llywodraeth. Darparir adnoddau pwrpasol a chynnal hyfforddiannau gyda'r bwriad o fagu hyder staff.

Symudwyd ymlaen i ail ran y cyflwyniad lle ffocysu'r ar Gategoreiddio Ysgolion yn Ieithyddol. Mae yna system gategorïau newydd, bellach mae 3 gategori gwahanol (3P). Gwelir isod sut caiff yr ysgolion ei gategoreiddio:




Caiff ysgolion ei symud ar hyd y continwwm i gyd fyd yn naturiol gyda chategoreiddio Cyfredol a Dyheadol. Isod gwelir rhai ystadegau:

| Symudiad | Nifer |
|---|---|
| 1 > T2/2 | 19 |
| 2/T2 > 3 / T3 | 9 |
| 3 > 3P | 1 |

Erbyn mis Medi 2024 mae angen rhoi categori newydd i holl ysgolion y Sir. Mae'r Cyngor yn arwain ar y dyhead a gohebu / awgrymu pa gategori y dylid anelu am. Fe wnaeth 87% o'r ysgolion gytuno gyda'r categori awgrymodd y Cyngor iddynt. Rheini a wrthododd a heriodd yr awgrymiadau oedd rhai ysgolion yn Llanelli. Esboniwyd fod ysgolion yn Llanelli wedi gwrthod categori 1 gan nad ydynt yn gwneud 15% drwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddodd y Cyngor yn ôl drwy ddweud fod ganddynt dwy flynedd i geisio cyrraedd ac i geisio sicrhau fod hyn yn digwydd cynigir arian ychwanegol iddynt er mwyn gallu cyflogi athro/athrawes cyfrwng Cymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| | Dangosodd 30 o ysgolion ei bod yn dymuno symud ar hyd y continwwm iaith. Yr hyn sydd yn galonogol yw bod 19 o'r ysgolion eisiau symud o T2 i T3. Nodwyd fod Mentrau Iaith y Sir wedi dangos diddordeb i helpu ar hyn a rhoi'r gefnogaeth i'r ysgolion, dywedodd AR y byddai hyn yn cael ei groesawu yn fawr.<br><br>Tuag at ddiwedd y cyflwyniad trafodwyd staffio a materion cyllidol. Ar hyn o bryd maent yn y broses o recriwtio aelod o staff i helpu Catrin Griffiths, Rheolwr Datblygu'r Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi sicrhau grant i godi canolfan Iaith newydd yn Llanelli.<br><br>Nodir hefyd y gwaith arbennig mae'r Tîm Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn ei wneud gan gynnwys:<br><br>• Y Gymraeg mewn ysgolion Cynradd Saesneg<br>• Ysgolion Cyfrwng Cymraeg<br>• Newydd-ddyfodiad<br>• Siarter Iaith<br>• Ysgolion Uwchradd<br>• Rhieni<br><br>Diolchodd Cllr Carys Jones i Aeron Rees am ei gyflwyniad trylwyr. Ategodd Cllr Glynog Davies ei ddiolch i'r holl staff a swyddogion am ei gwaith caled.<br><br>Nododd y Panel fod yr asesiad risg yn pryderu gofid iddynt a bod angen pwyso ar y gwaith sydd yn cael ei wneud yn Nwyrain Llanelli a pharhau gyda'r gwaith caled. Fe fydd y Cynghorydd Glynog Davies yn gallu trafod y pwyntiau hyn a nodwyd i'r Cabinet. | |
| 4. | Cyflwyniad – Cymraeg Gwaith<br><br>Croesawodd Cllr Carys Jones, Kelly Morris a ddarparodd gyflwyniad ar Ddatblygu Sgiliau Cymraeg.<br><br>Bwriad y cyflwyniad oedd rhoi trosolwg o Lefelau Iaith, Llwybrau Dysgu a chynllun Cymraeg Gwaith. Mae'r holl swyddi a hysbysebir gan y Cyngor yn mynd allan ar lefelau rhwng 1-5.<br><br>Esboniwyd fod 5 lefel gwahanol o gyrsiau y gall ddysgwyr gwblhau. I gwblhau'r lefelau hyn mae'n ddisgwyliedig iddynt wneud tua 120 o oriau. Pwysleisiwyd fod yna gyrïsau i bawb a hynny gan gynnwys siaradwyr rhugl.<br><br>I'r staff sydd yn dysgu Cymraeg mae yna gefnogaeth ar gael drwy fentoriaid a'r cynllun siarad gyda'r ganolfan ddysgu sydd yn gynllun 10 awr.<br><br>Sefydlwyd Cymraeg Gwaith nôl yn 2018. Ers 2023 mae bellach wedi newid lle gafwyd tiwtor Cymraeg Gwaith i ddatblygu sgiliau iaith Staff y Cyngor.<br><br>Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r nifer sydd wedi cwblhau cyrsiau mynediad, sylfaen a canolradd. Drwy'r cyrsiau bu staff yn cwrdd â'i gilydd ac annog ei gilydd ymlaen. | |

## Prif Cyrsiau | Main Courses

| Cwrs \| Course | Staff | Pasio \| Passed | Parhau \| Continue |
|---|---|---|---|
| Mynediad | 21 | 19 | 15 |
| Sylfaen | 5 | 5 | 2 |
| Canolradd | 3 | 3 | 0 |

<u>Rhaglen Codi Hyder</u>

Nodwyd hefyd drwy Gymraeg Gwaith mae Rhaglen Codi Hyder ar gael i staff sydd yn rhaglen o tua 20 wythnos. Mae'r rhaglen yn benodol ar gyfer rheini sydd yn deall y sgwrs ond a diffyg hyder i ateb. Caiff y dysgu yma ei wneud yn anffurfiol. Bu tua 6 aelod o staff ar y rhaglen gyntaf, ac yr hyn sydd yn gadarnhaol yw ei bod wedi parhau ar ôl yr wythnosau gorfodol i ddysgu a datblygu ymhellach eto.

Derbyniwyd cwestiwn gan y Cynghorydd Sue Allen a oedd yn gofyn am y posibilrwydd o redeg y cyrsiau yma i gynghorwyr. Nododd bod ganddi ddiddordeb i wneud y cwrs. Ategodd KM y byddai modd rhedeg cyrsiau i gynghorwyr a'i bod am wneud ymchwil pellach.

<u>Croeso Cymraeg</u>

Esboniwyd fod Croeso Cymraeg yn weithdy ar-lein lle bod pobl yn gallu agor a chloi sgwrs y gyrraedd lefel 1. Mae'r cwrs wedi bod yn llwyddiannus o fewn y Cyngor, dechreuwyd yng Ngorffennaf tan Hydref a rhwng hyn fe ddaeth 51 aelodau o staff y Cyngor i'w gwblhau. Derbyniwyd cwestiwn pwysig gan y Cynghorydd Jean Lewis a oedd yn nodi lle all y staff fynd nesaf wedi iddynt gwblhau lefel 1. Nododd Kelly fod rhai rhan fwyaf ohonynt wedi ymrwymo i gwrs pellach.

<u>Cyrsiau Byr Ar-lein</u>

Un o'r pethau mwyaf cyffredin yw bod gymaint o ffyrdd gyda ni o ddweud ie ac na. Gofynnwyd i staff pe baent yn rhoi sesiynau ymlaen be hoffent ei weld. Fe wnaeth 40% ymuno a'r cwrs ie ac na ac felly dyna a wnaethpwyd.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ran niferoedd o'r holl gyrsiau a drafodwyd uchod.

| **Cwrs \| Course** | |
|---|---|
| Croeso Cymraeg \| Welcome Welsh | **50** |
| Gloywi - Ysgrifennu \| Written | **11** |
| Grym Gorchymyn \| You've got the Power | **4** |
| Ie a Na - Yes and No | **40** |
| Pethau Bychain - The little things | **2** |
| **Cyfanswm \| Total** | **107** |

Derbyniwyd adborth positif iawn o staff a nodwyd rhai o'r prif rai:

- Teilwra i anghenion y gweithle
- Cyrsiau byr a Chroeso
- Staff yn cyd-ddysgu
- Adborth positif am diwtor
- Cyd weithio gyda Dysgu Cymraeg

- Haws i fonitro cynnydd
- Lleihau colli dysgwyr
- Cynnig fwy o gefnogaeth

Er nodi'r adborth positif fe wnaeth Kelly hefyd sôn am rhai o'r heriau mae staff yn ei hwynebu ar gyfer Dysgu Cymraeg:

- Pwysau gwaith
- Galwadau ar-lein
- Salwch

Symudwyd ymlaen i ail ran y cyflwyniad lle nodwyd fod hanner cant o staff hefyd wedi cwblhau cyrsiau mynediad, sylfaen, canolradd, uwchradd a gloywi.

A'r hyn o bryd mae'r dull o hunan asesu yn dal i gael ei ddefnyddio o fewn y Cyngor. Bydd staff yn llenwi ffurflen MS Forms er mwyn gallu diweddaru lefelau iaith. Mae'r lefelau hefyd yn cael ei ddiweddaru unwaith bod staff wedi gorffen y cyrsiau.

Ategodd Cynghorydd Cllr JL ei fod yn galonogol iawn i weld fod cymaint o staff yn cwblhau'r cyrsiau. Gofynnodd y cwestiwn o ran a oes modd cael rhyw fath o gwrs i gefnogi plant a rhieni sydd yn gweithio o fewn y Cyngor. Nododd Kelly fod yna cyrsiau drwy'r Ganolfan Dysgu ar gyfer rhieni sydd yn danfon ei blant i ysgol Cymraeg ond ddim yn rhugl.

Wrth symud ymlaen ac edrych tuag at 2024 nodwyd ei bod wedi datblygu i weithio gyda ARFOR. Bellach mae 44 o fusnesau wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg sydd yn amlwg yn golygu o ran yr hir dymor y bydd mwy o Gymraeg o fewn busnesau yn y Sir.

<u>Cymraeg Gwaith 2024</u>

- 1 tiwtor llawn amser – cefnogi staff y Cyngor Sir
- 1 Tiwtor Rhan amser – cefnogi busnesau
- Darparu rhaglen i Staff Cyngor Sir
- Darparu rhaglen i fusnesau'r Sir

I ddod a'r cyflwyniad i ben amlinellodd y prif nodau ac amcanion wrth i ni edrych ar symud ymlaen tuag at y dyfodol:

- Cynllun Newydd Cymraeg Gwaith
- Mwy o waith gyda rheolwyr i godi ymwybyddiaeth i ddysgu Cymraeg a'r hawliau sydd ganddynt
- Datblygu'r prosesu asesi

Diolchodd Cllr CJ i Kelly Morris am ei chyflwyniad gan ddweud fod yr hyn a gafodd ei gyflwyno yn bositif iawn. Nodwyd yr angen i hyrwyddo'r adnoddau hyn gyda'r dysgwyr a'i annog i ddefnyddio, er enghraifft lanyards Dysgu Cymraeg.

Fe wnaeth aelodau o'r Panel ofyn am y posibilrwydd o wneud arolwg o rheini sydd ddim yn siarad Cymraeg i weld pa lefelau maent ar a gweld a oes datblygiad wedi bod ar ôl gwneud y cyrsiau. Os bydd modd gwneud hwn nodwyd y posibilrwydd o'r Cynghorydd Sue Allen yn arwain ar hyn.

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd Kelly ei fod yn haws i gyrraedd a thargedu staff sydd yn gweithio i mewn yn y swyddfeydd o'i gymharu â staff y rheng flaen megis gweithwyr amgylchedd. Er yn gadarnhaol fe soniodd Kelly ei bod wedi cwrdd â Dan John o'r adran Amgylchedd i weld sut gellir targedu'r gweithwyr hyn gan wneud y pwynt fod ffyrdd gwahanol i weithio gyda pob adran. | |
| 5. | Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg 2022-23<br><br>Esboniwyd i aelodau'r Panel fod paratoi Adroddiad Blynyddol ar sut dy ni fel Cyngor yn gwireddu Safonau'r Iaith Gymraeg yn gyfrifoldeb statudol. Mae'n gyfle i ni adlewyrchu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac i adrodd ar ddata statudol megis sgiliau Iaith staff, y cwynion a dderbynnir a'r cyfleoedd hyfforddiant a gynigir i staff.<br><br>Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro yn unol â'r Safonau ac yn gosod allan astudiaethau achos er mwyn dod a'r gwaith a wneir yn fyw. Dy ni yn gwerthfawrogi unrhyw adborth ar yr adroddiad gan ein bod ni n ceisio gwella ar y cynnwys o flwyddyn i flwyddyn.<br><br>Amlygwyd dwy astudiaeth achos penodol o'r adroddiad, sef y gwaith gydag Adran yr Amgylchedd o ran y system gwastraff newydd a sut y gosodwyd Her Cystadlu yr Urdd i bob ysgol yn y sir adeg Eisteddfod Llanymddyfri 2023. | |
| 6. | Unrhyw fater arall<br><br><u>Diweddariad Iaith Gymraeg</u><br><br>• Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Arweinydd, Cynghorydd Glynog a Chynghorydd Ann gydag aelodau'r tîm polisi, Gwyneth a Llinos yn parhau. Cafwyd cyfarfod diweddar gyda Phrif Swyddogion y Mentrau Iaith yn ogystal.<br>• Gwaith cychwynnol wedi cael ei wneud o dynnu cyfrifoldebau'r Cyngor allan o'r Strategaeth Hybu er mwyn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen i ni wneud yn fewnol.<br>• Ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm mae yna thema benodol yn cael ei osod i bob cyfarfod. Edrychwyd ar y Gymraeg ar Economi yn ein cyfarfod dydd Llun. Y cam nesaf yw tynnu grŵp bach o aelodau'r Fforwm at ei gilydd i ffocysu ar y cynllun gweithredu gyda swyddogion o'r Isadran Adfywio hefyd yn rhan o hyn.<br>• Ar gyfer cyfarfod Mis Mawrth y Fforwm byddwn yn ffocysu ar flynyddoedd Cynnar a'r cyfarfod dilynol yn rhoi ffocws i Ôl-16, Prentisiaethau a Graddedigion.<br>• Bu Seimon Brooks, Cadeirydd Comisiwn Cymunedol Cymraeg yn ymweld â'r Cyngor ac ar hyn o bryd rydym yn aros am adroddiad terfynol a fydd yn ein cyrraedd yn yr Haf.<br>• Rydym yn rhan o gynllun peilot ARFER sydd yn cael ei gydlynu gan Brifysgol Bangor. Mae tua 120 o staff yr adran addysg yn rhan o'r peilot, yn benodol y tîm rheoli addysg. Gan y cynllun fwriad o roi ymyraethau ar waith er mwyn cefnogi staff i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.<br>• Yn dilyn canlyniadau'r cyfrifiad mae ein Tîm data o fewn y Cyngor yn gweithio ar ddadansoddiad i ni. Y gobaith yw gallu rhannu a thrafod yr adroddiad gyda chi yn ein cyfarfod ym mis Mawrth neu'r un dilynol.<br>• Rydym wedi rhoi sylw i'r gwaith mae Mentrau Iaith Cymru wedi ei wneud drwy wefan o'r enw'r Atlas Gymraeg. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Mae'r tair Menter Iaith wedi gwneud dadansoddiadau lleol o ddata'r cyfrifiad ac wedi edrych ar y brîf faterion o fewn ei ardaloedd. Mae'r dadansoddiadau yma eisoes wedi cael ei rhannu gyda'r arweinydd a Chynghorydd Glynog.<br>• Rydym wedi cwrdd ar Goleg Cymraeg Cenedlaethol i drafod cynlluniau prentisiaethau, graddedigion ac adnoddau sydd ar gael i gefnogi ni fel Cyngor. Byddwn yn cydweithio yn agos gyda nhw yn ystod wythnos prentisiaethau ym mis Chwefror.<br>• Yn ddiweddar rydym wedi dod yn rhan o Grŵp Cenedlaethol drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sydd yn edrych i ddatblygu polisi defnydd mewnol yn y gweithle. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys Cyngor Sir Gâr a Môn, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coleg Cymraeg, Canolfan Dysgu Cymraeg a'r TUC.<br>• Ar y trydydd ar hugain o Ionawr, bu Meri Huws fel Cadeirydd y Fforwm Sirol yn cyflwyno i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr. Cyflwynodd y Strategaeth Hybu i'r bwrdd a thrafodwyd sut bod modd iddynt gefnogi'r Fforwm i gyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth yn ogystal â thrafod ffyrdd o sut allwn gefnogi'n gilydd.<br>• Mae Sioned, ein swyddog graddedig yn rhan Rhwydwaith Graddedigion Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys presenoldeb graddedigion o sefydliadau cyhoeddus Cymru gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd ac Academi Cymru. Trefnodd y rhwydwaith cynhadledd ar gyfer graddedigion a gafodd ei chynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth ar y 25ain o Ionawr. Caiff y Gynhadledd ei rhedeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe dderbyniwyd geiriau o groeso gan ei Prif Weithredwr a gafodd ei ddarllen yn ystod agoriad y gynhadledd. Fe fu Sioned hefyd yn rhedeg un o'r gweithdai yn ystod y dydd a oedd yn ffocysu ar sut allwn adeiladu ar berthnasau cynlluniau graddedigion eraill yng Nghymru.<br>• Ar Fawrth y Cyntaf eleni mai Dathliad Dysgwyr wedi cael ei drefnu yn yr Egin Caerfyrddin o 1-3yp. Bydd holl aelodau'r Panel yn derbyn gwahoddiad i'r dathliad. Bydd y dathliad yn dathlu llwyddiannau ein staff o fewn y Cyngor sydd wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg Gwaith o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â dysgu mwy am ARFOR a'r prosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y Sir.<br>• Fel Cyngor, byddwn yn diweddaru ein Strategaeth Sgiliau Iaith a Pholisi Defnydd mewnol dros y 12 mis nesaf.<br>• Cyllideb £1m gan Lywodraeth Cymru: rhannau wedi eu neilltuo ar gyfer prosiectau bydd yn cael eu harwain yn genedlaethol – trosglwyddo iaith gan y mudiad; astudiaeth sosio- ieithyddol gan Y Drindod Dewi Sant; prosiect Perthyn gan Cwmpas; astudiaeth dichonolrwydd i ganolfan yn ardal Dyffryn Aman. Angen ystyried sut i ddyrannu £150K sy'n weddill i Sir Gâr. Siroedd Powys, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn cael siâr o'r £1m<br><br>Nododd yr Aelodau ei gofid o ran Enwi Strydoedd a Lleoedd a gofynnwyd am eglurder o ran grym a gallu'r cyngor yn y maes yma. Nodwyd fod y Cabinet wedi cytuno Polisi Enwai a Lleoedd yn ystod 2023 ond nid oedd hynny'n cynnwys enwau tirffurfiannau. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fforwm penodol i drafod hyn ac mae'r cyngor yn ran o hynny.<br><br>Awgrymodd LLE y gellir gofyn i rywun o'r adran gynllunio i ymuno a ni yn y cyfarfod i roi cyflwyniad i ni a'r hyn a lle mae'r hawliau a beth yw'r sefyllfa. | Tîm Polisi |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd aelodau o'r Panel am y posibilrwydd o awgrymu i'r adran Gynllunio bod y cyhoedd yn gallu bwydo mewn i enwau tai o fewn y Sir. | |
| 7. | Cyfarfodydd y dyfodol<br><br>• *11 Mawrth 2024*<br>• *8 Gorffennaf*<br>• *21 Hydref* | |